

# Ei Stori Hi

## Effaith Prosiect Undod yng Nghymru



# Rhagair

Rwy'n falch iawn i rannu EI Stori HI gyda chi, adroddiad sy'n manylu'r gwahaniaeth y mae gwasanaeth Prosiect Undod, NYAS Cymru yn ei wneud i fywydau merched a menywod ifanc sydd wedi profi gofal ledled Cymru, ac sydd yn feichiog ac/neu sydd â phlant. Dechreuodd Prosiect Undod pan ddaeth NYAS Cymru yn fwyfwy pryderus am nifer y ferched a menywod ifanc â phrofiad o dderbyn gofal a oedd yn dod atom i gael gwasanaeth eiriolaeth pan oeddent yn feichiog, a'u babanod yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant. Ein nod yw cynorthwyo menywod ifanc i aros gyda'u babanod, pryd bynnag y bo'n ddiogel i wneud hynny, ac atal mwy o blant rhag mynd i mewn i'r system ofal yng Nghymru.

Mae EI Stori HI yn canolbwyntio ar ganlyniadau ymchwil a gwblhawyd yn ystod 2024 gyda menywod ifanc â phrofiad o dderbyn gofal ledled Cymru sydd wedi gweithio gyda Prosiect Undod, er mwyn deall eu profiadau o'r gwasanaeth. Hoffem ddiolch i'r holl ferched a menywod ifanc a rhannodd eu straeon â ni'n ddewr ac sy'n parhau i ddefnyddio eu lleisiau i'n helpu i greu newid.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff sy'n gweithio mor galed i ddarparu Prosiect Undod ledled Cymru. Mae eich ymroddiad a'ch ymrwymiad yn anhygoel.



Sharon Lovell, MBE
**Prif Weithredwraig**
**NYAS Cymru**

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn mewn cydweithrediad â merched a menywod ifanc, gyda chefnogaeth Dr Anne Crowley.

# Ynglŷn â Prosiect Undod

Mae Prosiect Undod yn darparu cymorth emosiynol a ymarferol un-i-un i fenywod a merched ifanc sydd â phrofiad o ofal wrth iddynt geisio llywio gweithdrefnau gofal a diogelu plant mewn perthynas â'u babanod, plentyn neu plant. Mae'r gwasanaeth yn galluogi ac yn grymuso merched a menywod ifanc i greu a chynnal teulu cariadus iddyn nhw eu hunain ac i'w babanod a'u plant. Ers 2020, mae Prosiect Undod wedi gweithio efo bron 800 genod a merchaid ar draws Cymru.

Mae menywod ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn fwy debygol na'r boblogaeth gyffredinol o ddod yn rhieni ifanc. Mae ymchwil ynghylch yr hyn sy'n digwydd ar ôl i bobl ifanc ddod yn rhieni yn awgrymu, er y gall y cyfnod rhianta cynnar fod yn brofiad cadarnhaol, y gall trawma blaenorol, stigma, heriau o ran llety, heriau iechyd meddwl, profiadau o dlodi a diffyg cymorth anffurfiol effeithio’n negyddol ar brofiadau rhianta. Bydd rhai rhieni'n ymdopi'n dda er gwaethaf yr anawsterau hyn, ond ceir sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg i awgrymu bod menywod ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn fwy tebygol o brofi ymyrraeth gan y wladwriaeth a/neu gael eu gwahanu oddi wrth eu plant.

Sefydlwyd peilot o Brosiect Undod, NYAS Cymru yn Ne Cymru yn gyntaf yn 2017. Yn dilyn gwerthusiad annibynnol, yn 2020 ariannodd Llywodraeth Cymru i ehangu’r prosiect ar draws Cymru gyfan o dan ei Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (SSG).

## Cymorth Prosiect Undod

Mae pob merch ifanc sydd â phrofiad o ofal yn derbyn cymorth dwys, cynhwysol a holistaidd gan NYAS Cymru, a all gynnwys cymorth o feichiogrwydd hyd at unrhyw gymorth gyda gwrandawiadau cyfreithiol a mabwysiadu. Rydym hefyd yn darparu cymorth ar gyfer ail-leoliad yn eu llety eu hunain gyda'u babanod ac/neu blant. Mae Prosiect Undod yn cynnig y canlynol i genethod a merched ifanc:

- Cefnogaeth i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu parchu a'u diogelu.
- Cynrychiolaeth ffurfiol yn ystod gweithdrefnau diogelu gofal, eu helpu igymrydrhan mewn cyfarfodydd, cael mynediad at gyngor cyfreithiol, rheoli trosglwyddiadau rhwng lleoliadau gwahanol, cefnogaeth yn ystod asesiadau rhianta a rheoli trefniadaucysylltu os yw’n berthnasol.
- Cefnogaeth gyda byw’n annibynnol, cael mynediad at wasanaethau tai, cefnogaeth i sefydlu cartrefi er mwyn galluogi amgylchedd diogel a sefydlog iddynt ac i’w babanod ac/neu blant.
- Gwybodaeth ariannol mewn perthynas â budd-daliadau a hawliau.
- Cyfeirio at wasanaethau arbenigol eraill a all gynnwys sefydliadau iechyd meddwl a cham-drin domestig.



# Gwerthusiad dan Arweiniad Cymheiriaid


Bydd Prosiect Undod NYAS Cymru yn ymgynghori ac yn cydweithio'n rheolaidd â merched a menywod ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae eu barn a'u profiadau wedi llywio cyfeiriad y prosiect, gan gynnwys yr enw a'r hunaniaeth. Mae menywod ifanc wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau â Chomisiynydd Plant Cymru a Phrifysgol Caerdydd ac wedi cyfrannu'n rhagorol at ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yng Nghymru dan arweiniad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2023.

## Methodoleg Gwerthuso

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, fe wnaethom ni ymgymryd â gwaith ymchwil, gan ddefnyddio arolygon a grwpiau ffocws, gyda menywod ifanc sydd wedi gweithio gyda Prosiect Undod i ddeall effaith y gwasanaeth ar eu bywydau.

Anfonwyd holiadur yr arolwg drwy e-bost a negeseuon destun at **70** o fenywod ifanc a oedd wedi cael eu cynorthwyo, neu a oedd yn dal i gael eu cynorthwyo, gan Brosiect Undod. Ymatebodd **50** o fenywod ifanc o ardaloedd **16** o awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd **37** o'r menywod ifanc rhwng 19 a 25 oed, roedd **12** dan 18 oed ac roedd **un** fenyw dros 25 oed.

Cynhaliwyd chwe grŵp ffocws yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd yn ardaloedd Caerdydd, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Cwmbrân, Caerffili, Wrecsam, a Gwynedd.




*Oedran cyfranogwyr yr arolwg.*


Cynhaliwyd y grwpiau mewn lleoliadau cymunedol y gellir eu cyrraedd trwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus ac sy'n addas ar gyfer babanod a phlant ifanc. Roedd mannau chwarae a gofal plant ar gael hefyd. Roedd mwyafrif y menywod ifanc a gyfranogodd rhwng 17 a 24 oed (**86%**) ac roedd y gweddill rhwng 25 a 28 oed.



## Beichiogrwydd a darganfod Prosiect Undod

Gofynnwyd i ferched ifanc sut y daethon nhw i wybod am Prosiect Undod yn gyntaf. Roedd dros un rhan o dair o'r ferched ifanc a ymatebodd i'r arolwg wedi cael eu cyfeirio gan Weithiwr Cymdeithasol a ychydig llai na **1 yn 10** wedi cael eu cyfeirio gan Gynghorydd Person Ifanc. Roedd bron un pumed oedd wedi cael eu cyfeirio gan eu bydwraig neu ymwelydd iechyd, ac roedd nifer debyg wedi cael eu cyfeirio i Prosiect Undod trwy wasanaeth arall NYAS Cymru, er enghraifft, eiriolwr neu ar ôl 'cyfweliad dychwelyd adref'.

Dywedodd **75%** o'r menywod ifanc a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn feichiog pan gafwyd eu cyfeirio'n gyntaf i Prosiect Undod (gweler tabl 1). O'r rhain, **roedd un trydydd** yn cofio cael eu cyfeirio yn eu cyfnod tair mis cyntaf (0-3 mis), **hanner yn** eu hail cyfnod tair mis(4-6 mis) a **16%** yn eu trydydd cyfnod tair mis.




**Tabl un: Pa mor bell ymlaen mewn beichiogrwydd oedd merched ifanc pan cafwyd eu cyfeirio gyntaf at Prosiect Undod.**



## Diogelu Plant

Dywedodd **86%** o'r menywod ifanc a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi bod yn destun achos amddiffyn plant yn ystod eu beichiogrwydd neu yn syth ar ôl i'r babi gael ei eni. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain (**91%**) eu bod yn feichiog, gyda gweddill y menywod ifanc yn nodi eu bod wedi bod yn destun achos yn fuan ar ôl genedigaeth eu babi.

Roedd **38** o'r menywod ifanc, (**76%**), o'r farn bod eu profiad gofal eu hunain wedi dylanwadu ar y penderfyniad i'w plant neu plentyn heb eu geni fod yn destun achos amddiffyn plant. Nid oedd saith menyw ifanc (**14%**) o'r farn bod eu profiad gofal wedi dylanwadu ar y penderfyniad ac roedd pump (**10%**) yn ansicr.

Dywedodd y menywod ifanc yn aml eu bod yn meddwl ei fod yn 'arferol' i famau ifanc sydd â phrofiad o ofal gael eu cyfeirio at wasanaethau plant:



*"Roedd yr awdurdod lleol wrth fy nrws y funud y cadarnhawyd y beichiogrwydd gan fy meddyg teulu. Dywedon nhw mai eu polisi oedd sicrhau bod gen i'r gefnogaeth briodol fel rhywun sy'n gadael gofal."*

*"Dywedodd y bydwraig wrthyf fod yn rhaid cyfeirio pob mam sydd â phrofiad o ofal at y gwasanaethau cymdeithasol."*

*"Rwyf wedi bod mewn gofal ers pan oeddwn i'n 12 oed. Pan ddes i wybod fy mod i'n feichiog dywedon nhw wrthyf, oherwydd fy mod i â phrofiad o ofal, y bydd fy mabi yn mynd ar y gofrestr amddiffyn plant."*

***Esboniodd rhai menywod ifanc eu bod yn teimlo nad oedd yr awdurdod lleol yn ymddiried ynddynt ac yn gwahaniaethu yn eu herbyn, neu'n eu barnu oherwydd eu hanes gofal:***

*"Mae nhw'n gwybod fy mod i wedi bod mewn gofal, ac nid ydyn nhw'n ymddiried ynom ni. Oherwydd fy mod i wedi tyfu i fyny mewn gofal, mae nhw nawr yn meddwl na allaf ofalu am fy mabi."*

*"Dywedwyd wrthyf mai oherwydd fy mod i wedi bod mewn gofal a hefyd fy oedran oedd hynny, ond nid yw fy ffrindiau eraill o'r un oedran wedi cael eu cyfeirio gan nad ydyn nhw wedi bod mewn gofal."*

*"Roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn fy adnabod o'm gorffennol - dywedon nhw y bydden nhw'n helpu, ond fe wnaethon nhw fy marnu a chymryd fy mabanod."*



Siaradodd llawer o'r menywod ifanc a ymatebodd i'r arolwg neu a fynychodd y grwpiau ffocws am ba mor ddi-rym a thargedig yr oeddent yn teimlo dim ond oherwydd eu bod wedi bod mewn gofal fel plentyn:

***“Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy pigo arno ac yn wahanol - pam maen nhw'n meddwl y byddwn i'n brifo fy mabi?”***

***“Rwy'n cael fy marcio fel person ifanc sydd â phrofiad o ofal, ac nid oes neb yn credu fy mod i'n gallu bod yn rhiant.”***

Teimlai un fenyw ifanc a oedd yn awyddus i herio'r agweddau hyn:

***““Mae'n teimlo bod pob beichiogrwydd yn destun amddiffyn plant oherwydd bod gennym brofiad o ofal, ond gyda chymorth Prosiect Undod, rydym ni eisiau newid hynny.”***

Roedd llawer o'r menywod ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn disgwyl y byddai unrhyw feichiogrwydd dilynol a gawsant yn destun pryderon amddiffyn plant oherwydd bod gennym brofiad o fod mewn gofal. **Dywedodd dwy** fenyw ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod wedi dewis peidio â chael babi arall oherwydd nad oeddent am fynd trwy'r trawma o golli eu plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd un ei bod wedi cael terfyniad yn hytrach na pharhau â'i hail feichiogrwydd oherwydd ei bod mor ofnus y byddent yn cymryd ei babi.

Roedd NYAS Cymru eisiau darganfod a oeddem wedi llwyddo i leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal a nifer y menywod ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n ymwneud â'r system amddiffyn plant o safbwyntiau uniongyrchol y menywod ifanc. Yr hyn a ganlyn yw gwybodaeth ansoddol am eu profiadau.

Yn y grwpiau ffocws, roedd traean o fenywod ifanc wedi rhoi genedigaeth i ail blentyn ers iddynt gysylltu â Prosiect Undod ar eu beichiogrwydd cyntaf. Mae'r data hwn yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i effaith Prosiect Undod ar leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal yng Nghymru a chyflawni gostyngiad yn nifer y mamau ifanc sydd â phrofiad o ofal yn y system amddiffyn plant.

Yn nodweddiadol, y menywod ifanc a oedd wedi dod i wybod am y gefnogaeth gan Prosiect Undod ar eu beichiogrwydd cyntaf **ac yna wedi cyfeirio eu hunain at Prosiect Undod yn gynnar yn eu hail beichiogrwydd.** Er enghraifft, nododd dwy fenyw ifanc a gollodd eu plant cyntaf i fabwysiadu, fod y ffaith eu bod wedi dysgu am eu hawliau gan Prosiect Undod ac wedi deall y broses amddiffyn plant wedi eu helpu'n fawr **'yr ail dro'. Canlyniad y ddau achos hyn oedd bod babanod y menywod ifanc wedi gallu aros yn eu gofal yr ail dro.**

Yn ogystal, dywedodd dwy fenyw ifanc nad oedd eu beichiogrwydd diweddaraf wedi bod yn destun achos amddiffyn plant. Dywedodd un fenyw ifanc bod pryderon amddiffyn plant wedi codi ond eu bod wedi'u gwrthod ar ôl yr asesiad. Roedd un fenyw ifanc o'r farn mai'r ffaith na gychwynnwyd PLO (Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus), ar gyfer ei hail fabi oedd oherwydd y ffaith bod Prosiect Undod wedi bod yn rhan o'r broses **'gynnar' yn y beichiogrwydd.**

Mae llawer o'r menywod ifanc yr ydym wedi gweithio gyda nhw sydd â'u babanod yn byw gyda nhw o hyd, i gyd wedi dweud mai'r rheswm am hynny yw eu bod wedi gweithio gyda Prosiect Undod. Ar y cyfan, dywedodd **94%** o'r menywod y gwnaethom eu holi fod Prosiect Undod yn 'ddefnyddiol iawn' iddynt Nododd un fenyw ifanc ei stori am fynd â'i babi adref a dywedodd ei bod yn bendant oherwydd ei bod yn gweithio gyda Prosiect Undod:

**“Dyma’r ail dro i mi fod gyda Phrosiect Undod, y tro cyntaf i fy mabi gael ei fabwysiadu ond fe wnaethon nhw aros gyda mi bob cam, y tro hwn rwy’n mynd â fy mabi adref, ac ni allwn fod wedi gwneud hynny hebddyn nhw.”**

**“Mae Prosiect Undod wedi fy nghefnogi pan oeddwn i’n meddwl nad oedd neb yn poeni, mae nhw wedi fy helpu i gael llais, a nawr mae gen i fy mabi adref.”**

## Ymgysylltu â Gwasanaethau Plant

O'r casgliad data, roedd tystiolaeth bod cyfranogiad Prosiect Undod wedi helpu i wella ansawdd y berthnas rhwng y menywod ifanc a gwasanaethau plant. Nododd y mwyafrif o fenywod ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws brofiadau negyddol iawn gyda gwasanaethau plant fel plentyn mewn gofal a nawr fel mam i blentyn a oedd yn destun pryderon amddiffyn plant:

***“Rwyf wedi cael profiad negyddol iawn ers iddyn nhw gymryd fy mhlant i gyd, methodd â'm diogelu fel plentyn ac yna maent wedi diogelu fy mhlant fy hun yn ormodol.”***

***“Cefais brofiad negyddol iawn gyda gwasanaethau cymdeithasol, roeddent yn credu ein bod wedi niweidio ein plant a'u cymryd i ofal maeth. Hyd yn oed ar ôl iddo gael ei brofi fy mod i a fy mhartner yn ddieuog, roedd yn rhaid i ni ymladd dros ein plant a neidio trwy rwystrau i'w cael yn ôl. Yn ystod yr ymchwiliad, yn aml ni wrandawyd ar ein llais ac roeddwn i'n teimlo fel rhif iddyn nhw yn hytrach na pherson go iawn. Cafodd fy ngorffennol a gorffennol fy mhartner ei grybwyll llawer, ond nid yw hyn yn fy atal rhag bod yn fam dda.”***

Dywedodd rhai o'r menywod ifanc a gafodd ail feichiogrwydd eu bod wedi cael profiad mwy cadarnhaol o wasanaethau plant yr **'ail dro' oherwydd cyfraniad Prosiect Undod. Dywedodd un rhan o dair** o'r menywod ifanc yn ystod eu hail feichiogrwydd eu bod yn teimlo'n fwy grymus i godi eu llais y tro hwnnw oherwydd eu cyfranogiad â Phrosiect Undod. Roeddynt i gyd wedi gofyn am gymorth gan Prosiect Undod yn gynnar yn eu (hail) feichiogrwydd oherwydd eu profiadau blaenorol.

## Effaith ar Ferched a Merched Ifanc

**75%**
wedi gwella eu lles.

**87%**
wedi cynyddu eu gwybodaeth am hawliau.

**95%**
wedi cynyddu'r teimlad bod eu llais yn cael ei glywed, ac wedi tynnu sylw at bwysigrwydd Prosiect Undod yn eu taith i'r pwynt hwn.

**90%**
o bobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn cael eu gwrando arnynt.

**80%**
cynnydd mewn cyfranogiad wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

**20%**
wedi gwella eu cyflogadwyedd a'u mynediad at addysg.

Dywedodd 100% o'r menywod ifanc a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn argymell Prosiect Undod i fam ifanc arall sydd â phrofiad o dderbyn gofal sy'n destun achos amddiffyn plant. Dywedodd yr holl fenywod ifanc a gyfranogodd yn y grwpiau ffocws y byddent yn gofyn am gymorth gan Brosiect Undod yn ystod unrhyw feichiogrwydd dilynol oherwydd roedd y prosiect wedi cynnig cymorth hynod o fuddiol iddynt.

**Ar ôl gweithio gyda Prosiect Undod, mae mamau â phrofiad o ofal wedi adrodd:**

- Gwelliant mewn hyder a gwydnwch.
- Gwell gwybodaeth am wasanaethau cymorth, iechyd rhywiol, perthnasoedd iach, cydraddoldeb rhywedd a delwedd y corff.
- Gwell sgiliau, gan gynnwys cyfathrebu.
- Mwy o siawns na fydd eu plentyn yn cael ei dynnu allan o'u gofal.

***"Mae Prosiect Undod wedi fy helpu'n aruthrol; hebddyn nhw mae'n debyg na fyddwn wedi cael fy mhlant."***

***"Sylweddolais y gallwn chwarae rhan yn y gymdeithas a bod fy llais yn bwysig. Heb Brosiect Undod ni fyddwn byth wedi gwybod hynny."***

***"Rhoddodd Prosiect Undod lais i mi a chyfle i fynegi fy marn, gan sicrhau fy mod i'n iawn."***

***"Roedd Prosiect Undod yn poeni ac yno i mi bob cam o'r ffordd – diolch!"***

***"Roeddwn i'n teimlo'n dawel fy meddwl bod gen i rywun oedd yn dweud wrtha i beth oedd yn digwydd a pham, a beth allwn i ei wneud i wella pethau."***



## Awgrymiadau ynghylch Rhagor o Newidiadau

Pan ofynnwyd i fenywod ifanc sut y gellid gwella Prosiect Undod, cafwyd nifer fechan o awgrymiadau. Roedd y rhan fwyaf o fenywod ifanc yn credu bod y prosiect yn wych fel y mae, ond cynigiwyd tri phrif awgrym i sicrhau bod y prosiect yn well fyth:

### 1 Ymyrraeth Gynnar o gynnig gweithredol :

Dylid cynnig Prosiect Undod i bob merch a menyw ifanc sydd â phrofiad o ofal pan fyddant yn dod yn feichiog. Roedd llawer o fenywod ifanc yn dymuno gweld hynny'n digwydd fel mater o drefn. Dywedodd nifer o fenywod ifanc eu bod yn teimlo'n rhwystredig yn sgil y ffaith na chawsant wybod am Brosiect Undod (trwy law eu gweithiwr cymdeithasol neu fydwraig) tan ddiwedd eu cyfnod beichiogrwydd – roeddent yn credu bod hyn wedi effeithio'n andwyol ar y posibilrwydd y byddent yn cael caniatâd i fod yn rhiant i'w plentyn:

***"Hoffwn i pe bawn i wedi cael cymorth o'r cychwyn cyntaf pan wnaeth y gwasanaethau cymdeithasol fynegi pryderon."***

### 2 Dylid darparu cymorth iechyd meddwl a lles i Famau Ifanc â phrofiad o ofal:

Roedd rhai menywod ifanc hefyd am i Brosiect Undod gynnig rhywfaint o wasanaethau llesiant, cwnsela a therapi i ymateb i drawma. Esboniodd un fenyw ifanc fod Prosiect Undod wedi ei chynorthwyo pan wnaeth hi gam-esgor ond eglurodd ei bod hi ar yr adeg honno yn credu fod angen rhagor o gymorth arni:

***"Byddai'n dda efallai pe gallai'r prosiect gynnig rhywfaint o wasanaethau cwnsela neu therapi i fynd i'r afael â thrawma oherwydd fe wnaiff hynny fy helpu i ymdopi â fy mhroblemau yn y gorffennol ac yn helpu â rhai agweddau o fy iechyd meddwl."***

### 3 Adeiladu Cymuned o Gymorth Cyfoedion i Bobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal:

Dylai Prosiect undod barhau i greu mwy o gyfleoedd i gwrdd â 'Gweithwyr Prosiect a merched fel fi'. Fel y dywedodd un fenyw ifanc:

*"Hoffwn i gael cyfle rheolaidd i gwrdd â Gweithwyr Prosiect a merched eraill fel fi. Unwaith y mis efallai, i sgwrsio am y pethau sy'n digwydd a chael tawelwch meddwl. I'm helpu â'r cam nesaf, sef gallu cael fflat a mynd i'r coleg, gobeithio."*

## Beth Nesaf - Anelu'n Uchel - TogetHER

Mae NYAS Cymru yn elusen hawliau dynol sy'n cynorthwyo rhai o'r plant/pobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Ein diben yw gwella canlyniadau i blant/pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan wneuthurwyr penderfyniadau. Rydym yn helpu pobl ifanc i atal, dechrau neu newid pethau, gan sicrhau bod eu hawliau’n cael eu parchu a’u cynnal. Mae ein rhaglen Undod yn gweithio'n gyfan gwbl gyda menywod ifanc a merched sydd wedi derbyn gofal. Rydym wedi cynorthwyo â mwy na 500 o gyfeiriadau hyd yn hyn, a dywed 90% eu bod wedi profi gwahaniaethu ar sail rhywedd yn ystod beichiogrwydd. Mae llawer yn credu eu bod yn cael eu stigmateiddio oherwydd eu profiad o dderbyn gofal, â’u gallu i fagu plant yn cael ei asesu drwy brosesau amddiffyn plant ffurfiol.

Drwy’r gwerthusiad a luniwyd ar y cyd â menywod ifanc, a amlygir yn y papur hwn, mae NYAS Cymru yn dymuno creu chwaer-brosiect newydd i gyd-fynd â Phrosiect Undod; o’r enw: TogetHER. Datblygwyd y prosiect hwn trwy gydweithio, ac mae'r enw Saesneg yn adlewyrchu undod a'r nod, sef sicrhau "y caiff hi" y cymorth sydd ei angen arni. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gyflawni cydraddoldeb o ran rhywedd a mynd i'r afael â gwahaniaethu, ar sail blaenoriaethau a nodwyd gan y menywod ifanc eu hunain. Byddwn yn:

1. Creu newid systemig i 3,500 o fenywod ifanc a genethod sydd â phrofiad o dderbyn gofal drwy gynnal adolygiad o'r broses asesu at ddibenion amddiffyn plant. Byddwn yn rhedeg grŵp llywio cenedlaethol ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o blith y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, a Swyddfa'r Comisiynydd Plant i allu cyflawni hyn. Byddwn yn creu fframwaith cenedlaethol i greu llwybr cymorth i fenywod ifanc beichiog yn y system ofal i sicrhau y gallant gadw eu babanod; pryd bynnag y bo'n ddiogel gwneud hynny.
2. Byddwn yn cynnig cymorth uniongyrchol ynghylch iechyd meddwl a lles i hyd at 150 o fenywod ifanc trwy raglen wyth wythnos sy'n cynnwys sesiynau i hybu, amddiffyn a datblygu iechyd meddwl menywod ifanc. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio at sefydliadau arbenigol a gweithio trwy bartneriaethau â grwpiau megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS), Plant yng Nghymru, CAMHS, Platform, a Voices from Care os ceir cyfeiriadau i gael gwasanaethau cwnsela arbenigol.

## Byddwn ni NYAS Cymru bob amser yn cefnogi plant a phobl ifanc.

# Ei Stori Hi

## Effaith Prosiect Undod yng Nghymru

## Dogfen Cymraeg

## Document in Welsh

nyas cymru

**Rhif Ffon:** 0808 808 1001
**E:** help@nyas.net

**www.nyas.net**

Hawlfraint © 2025 NYAS. Mae hawlfraint yr holl ddeunyddiau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn yn perthyn i NYAS (National Advocacy Service/ Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol) ac ni ddylid eu hatgynhyrchu, eu dyblygu na'u trosglwyddo heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Mae'r lluniau wedi'u gosod gan fodelau. Mae enwau wedi'u newid er mwyn diogelu hunaniaethau.

NYAS (National Youth Advocacy Service), Tower House, 1 Tower Road, Birkenhead, Wirral, CH41 1FF | Registered Charity No: 1012485